Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

# Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN08 Pren

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Fiona Wheatley |
| **Cymeradwywyd gan:** | Fiona Abbott |
| **Dyddiad yr Adolygiad:** | 09/11/2018 |

| Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN08<br>Pren | |
|---|---|
| Lleoliad Cynhyrchu | Amrywiol |
| EWC | 20-01-02 |
| Math | Gwastraff a Reolir |
| Dull Gwaredu | Didoli i'w ailgylchu |
| Math o Fin/Sach | Sgip |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwaredu gwastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau cyfanswm y gwastraff a anfonir i safleoedd gwaredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei ddidoli a'i waredu drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig oni bai mai dyma'r dewis olaf.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddidoli ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar ddidoli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastig, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Yn ôl y rheoliadau, rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr, ar wahân er mwyn sicrhau ansawdd uchel y deunydd wedi'i ailgylchu.

Er nad yw'r gwastraff hwn yn cael ei ystyried yn beryglus, mae'n ofyniad dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus, ein bod yn didoli gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei roi yn y dosbarth cywir. Gall cael gwared ar wastraff peryglus yn y modd anghywir, drwy'r ffrwd gwastraff dinesig cyffredinol, arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Bydd ailgylchu pren yn cynnwys eitemau megis:

- Pren meddal
- MDF
- Pren haenog
- Bwrdd sglodion
- Sglodion pren
- Paledi

## Eitemau

Ni ddylid gosod pren a symiau mawr o wastraff pren yn y biniau ailgylchu pedair/dwy adran mewnol, nac yn y biniau ailgylchu allanol neu’r biniau i ddeunyddiau na ellir eu hailgylchu. Os yw cyfansoddiad deunydd yn anhysbys, neu os yw wedi'i halogi, cysylltwch â'r Tîm Cynaliadwyedd (**estates-waste@abertawe.ac.uk**) am arweiniad a manylion pellach.

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

Mae sgip allanol ar gyfer pren ar Gampws Singleton lle gellir rhoi pob math o bren, gan gynnwys pren meddal, MDF, pren haenog, bwrdd sglodion, sglodion pren a phaledi. Fodd bynnag, rhaid rhoi unrhyw bren sydd wedi'i halogi neu ei drin yn y sgip ar gyfer deunyddiau na ellir eu hailgylchu.



Ffigwr 1 - Sgip 35 llathen ar gyfer pren ar gampws Prifysgol Abertawe

I gael gwared ar bren ar Gampws Singleton a Champws y Bae, gan gynnwys pren meddal, MDF, pren haenog, bwrdd sglodion, sglodion pren a phaledi, cyflwynwch archeb waith drwy borth Desg Gymorth y Brifysgol. Peidiwch â gadael gwastraff pren a phaledi mewn unrhyw ardaloedd allanol ar gampysau'r Brifysgol. Os hoffech fynd â gwastraff pren yn uniongyrchol i'r sgip pren ar Gampws Parc Singleton, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk yn gyntaf i drefnu mynediad.


## Costau Gwaredu

Mae'r gost waredu wedi'i chynnwys yn narpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, does dim cost uniongyrchol i unigolion/Cyfadrannau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Serch hynny, gall unigolion leihau costau a chyfrannu at darged y Brifysgol i gyflawni cyfradd o 63% o droi gwastraff yn ynni, neu ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi, drwy beidio â defnyddio'r ffrwd wastraff gyffredinol os nad oes gwir angen.

## Labelu

Gweler y templed

**Am arweiniad pellach, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk**


wood
& timber